



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Datblygu Sgiliau Siswrn

1. Ymarfer snipio

- Snipiwch ar draws gwellt - gellir eu defnyddio yn nes ymlaen ar gyfer edafu
- Gwnewch llysnafedd ac arllwyswch ar rac dros fwrdd. Torrwch y rhubanau llysnafedd wrth iddynt ddisgyn.
- Tyfwch ben gwair ac ymarfer snipio ei wallt wrth iddo dyfu.
- Gwnewch ffrinj trwy dorri ymylon dalen o bapur
- Snipiwch sribedi tenau o bapur (dim lletach nag 1 fodfedd)
- Tyllwch dyllau neu rhowch sticeri ar hyd ymyl darn o bapur a snipiwch i fyny at y twll neu'r sticer.



2. Torri ar hyd llinell syth

- Ymarferwch dorri ar hyd llinellau trwchus yn gyntaf, yna symud ymlaen i linellau teneuach.
- Torrwch rhwng llwybr wedi'i wneud o gortyn, gwellt yfed neu ffyn lolipop.
- Rhowch sticeri ar hyd y llinell fel canllaw gweledol
- Gwnewch gadwyni papur – torrwch sribedi o gerdyn yna gludwch y sribedi yn gylchoedd, gan eu cyd-gloi i wneud cadwyn.
- Llusern papur – Plygwch ddarn o bapur yn ei hanner ar ei hyd; gwnewch doriadau fodfedd ar wahân gan ddechrau ar yr ymyl wedi'i blygu a stopio modfedd cyn cyrraedd y diwedd. Unwaith y bydd yr holl linellau wedi'u torri, agorwch allan a gludo'r ddau ben byr at ei gilydd i wneud llusern. Torrwch sribedi ychwanegol o ddarn arall o bapur ar gyfer handlen a ffrydiau.



3. Torri o amgylch onglau (e.e. sgwâr neu driongl)

- Gwnewch gardiau chwarae i'w chwarae mewn parau sy'n cyfateb. Tynnwch focs o amgylch pob llun i'w dorri allan ar hyd y llinellau.
- Gwnewch luniau siâp – torrwch siapiau unigol (sydd ag onglau) allan – ceisiwch wneud tŷ, roced neu goeden Nadolig.
- Gwnewch restr siopa - tynnwch focs o amgylch lluniau o gylchgronau a chatalogau - torrwch o'u cwmpas a'u gludo ar eich rhestr.
- Tynnwch sgwariau consentrig parhaus, gan dorri ar hyd y llinellau i wneud addurn y gellir ei hongian.

4. Torrwch o amgylch cromliniau a chylchoedd

- Defnyddiwch baent bysedd i ddilyn llwybr y gromlin ac yna torrwch ar hyd y llwybr hwn unwaith y bydd y paent wedi sychu.
- Gludwch llyn i wneud llwybr crwm a thorrwch rhyngddo
- Tynnwch lun cylchoedd consentrig parhaus, gan dorri ar hyd y llinell i wneud neidr
- Gwnewch luniau siâp cromlin/cylch - allwch chi wneud blodyn?
- Tynnwch lun sleisys pizza a thori tomatos a pepperoni allan i fynd ar ei ben.